

Rhif: WG44232

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Categoriâu cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg

Cynigion i ychwanegu at y categorïau o bobl y mae'n ofynnol iddynt
gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg – ail ymgynghoriad ar offeryn
statudol drafft

Mawrth 2023

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau ymatebwyr mewn perthynas â rhai anghysondebau yn y gofynion cofrestru presennol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda'n pobl ifanc.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Deddfwriaeth a Llywodraethu

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: EWCConsultation.WG44232@gov.wales



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: [Categoriâu cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg: ail ymgynghoriad ar offeryn statudol drafft | LLYW. CYMRU](#)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Sut mae'r trefniadau cofrestru'n gweithio ar hyn o bryd?	2
Beth ydym am ei newid?	3
Crynodeb o'r ymatebion	3
Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf response	9
Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr	10

Cyflwyniad

1. Mae'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg a gwaith ieuencid yn rhan greiddiol o'r gwaith o helpu plant a phobl ifanc i fod yn ddiogel, i ddysgu ac i ffynnu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio atgyfnerthu proffesiynoldeb y gweithlu hollbwysig hwn mewn ffordd gadarnhaol. Rydym wedi ymgynghori ddwywaith ar ein cynigion i fynd i'r afael â rhai anghysondebau yn y gofynion cofrestru presennol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.
2. Cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad rhwng 9 Rhagfyr 2022 a 17 Chwefror 2023. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i roi eu barn ar yr offeryn statudol drafft, sy'n cynnwys y ffi arfaethedig a'r strwythur cymhorthdal.
3. Ein cynllun ni yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Mae'r Cyngor Gweithlu Addysg yn cynnal gwaith paratoadol ar gyfer cyflwyno'r categorïau newydd o gofrestru. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen ymgysylltu â chyflogwyr a darpar gofrestreion i esbonio'r gofynion cyfreithiol newydd.
4. Mae'r cynigion hyn yn cefnogi'r gwaith i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru. Nod yr adolygiad yw nodi'r newidiadau y mae angen eu gwneud i'r rheoliadau perthnasol ar gyfer ysgolion annibynnol er mwyn adlewyrchu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru. Bydd y newidiadau'n sicrhau eu bod yn diogelu ac yn amddiffyn lles dysgwyr mewn ysgolion annibynnol.
5. Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan 29 o ymatebwyr. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion.

Sut mae'r trefniadau cofrestru'n gweithio ar hyn o bryd?

6. Fel rheoleiddiwr statudol annibynnol, rôl Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw diogelu'r cyhoedd. Mae'n gwneud hyn trwy gynnal cofrestr o ymarferwyr addysg (y Gofrestr). Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bobl sy'n perthyn i'r categorïau canlynol gofrestru ar hyn o bryd:
 - Athrawon ysgol cymwysedig a gweithwyr cymorth dysgu sy'n darparu gwasanaethau penodedig mewn ysgolion a gynhelir
 - Athrawon sy'n darparu addysg mewn sefydliadau addysg bellach
 - Gweithwyr cymorth dysgu sy'n darparu gwasanaethau penodedig mewn sefydliadau addysg bellach
 - Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n darparu gwasanaethau ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith ar gyfer neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith
 - Gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid cymwysedig sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuencid ar ran corff perthnasol (awdurdod lleol, corff llywodraethu ysgol, sefydliad addysg bellach, neu gorff gwirfoddol).

7. Mae'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd ar [wefan y Cyngor](#). Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor tua 85,000 o gofrestreion.

Beth oedd y cynnig am newid?

8. Ychwanegodd y Gorchymyn drafft y categorïau newydd canlynol:
 - Athro neu athrawes mewn ysgol annibynnol
 - Gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol
 - Athro neu athrawes mewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol
 - Gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol
9. Roedd y Gorchymyn drafft hefyd yn cynnig y diwygiadau canlynol i'r categorïau cofrestru presennol:
 - Athro ysgol - wedi ei ymestyn i sicrhau ei bod yn ofynnol i holl benaethiaid ysgolion a gynhelir gofrestru, p'un a oes ganddynt gyfrifoldebau addysgu ai peidio.
 - Gweithiwr ieuencid - wedi ei ymestyn i gynnwys gweithwyr ieuencid cymwysedig cyflogedig (ynghyd â chofrestriad dros dro i'r rhai sy'n gweithio tuag at gyflawni statws gweithiwr ieuencid cymwysedig) mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.
 - Gweithiwr cymorth ieuencid - wedi ei ymestyn i gynnwys gweithwyr cymorth ieuencid cymwysedig cyflogedig (ynghyd â chofrestriad dros dro i'r rhai sy'n gweithio tuag at gyflawni statws gweithiwr cymorth ieuencid cymwysedig) mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.
10. Fe wnaeth y Gorchymyn drafft hefyd ddiweddarau'r rhestr o gymwysterau gwaith ieuencid a gweithwyr ieuencid a gosod dyletswyddau ar y CGA i baratoi a chynnal y rhestr.

Crynodeb o'r ymatebion

11. Cafwyd 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan drawstoriad o gymdeithas, gan gynnwys y cyhoedd, undebau llafur, cyrff rheoleiddio ac amryw o gyrff cynrychioliadol, yn bennaf yn y sector addysg yng Nghymru.
12. Cyflwynwyd 13 o ymatebion i gyd lle na roddwyd enw na sefydliad, neu le'r oedd yr ymatebydd yn gofyn am i'w ymateb gael ei drin fel un dienw. Mae dymuniadau ymatebwyr i gael eu trin yn ddiennw wedi cael eu parchu yn yr adroddiad cryno hwn. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol

13. Roedd cefnogaeth dda ar gyfer ychwanegu categorïau newydd i'w gwneud yn ofynnol i bersonau gofrestru fel athro ysgol neu weithiwr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol.

14. Cafwyd 25 ymateb i Gwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'n gywir y categorïau cofrestru ychwanegol arfaethedig ar gyfer ysgolion annibynnol? O'r rhain, roedd 60% o'r ymatebwyr yn cytuno a 12% ddim yn cytuno â'r cynigion. Yn ogystal, roedd 12% yn ansicr.
15. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni nad yw'r Gorchymyn yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod yn rhaid i'r holl staff perthnasol mewn ysgolion annibynnol gofrestru. Yn benodol, teimlwyd y dylid cynnwys y rhai mewn rolau arweinyddol yn ogystal â'r pennaeth.
16. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylid gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy eglur, er mwyn sicrhau bod pob uwch arweinydd mewn ysgolion annibynnol yn cofrestru. Bydd y Gorchymyn terfynol felly'n gwneud y gofyniad hwn yn glir, wrth sicrhau na fydd yn ofynnol i aelodau eraill o staff - fel bwrsariaid, llywodraethwyr a rheolwyr busnes - gofrestru fel athrawon.
17. Roedd pryder hefyd am y staff hynny sy'n cael eu cyflogi i ddarparu gwasanaethau gofal a therapi i ddysgwyr mewn ysgolion annibynnol ac a ddylen nhw gofrestru gyda'r CGA. Bydd cyfran o'r staff hyn wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a bydd hyn yn dibynnu ar y rôl benodol y mae unigolion yn ymgymryd â hi yn eu lleoliad.
18. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r diffiniad o weithiwr cymorth dysgu gynnwys y rhai a allent fod yn gweithio yn y lleoliadau preswyl ac addysgol o fewn ysgol annibynnol.
19. Rhaid i unigolion gofrestru gyda'r rheoleiddiwr perthnasol ar sail eu rolau a'u cyfrifoldeb. Cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i rai unigolion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) a'r CGA hefyd os oes ganddynt fwy nag un rôl neu rôl sy'n cyfuno darparu gofal yn y lleoliadau preswyl a chymorth mewn lleoliad addysg. Mae GCC a'r CGA yn rhoi cyngor ar achosion unigol.
20. Roedd pryder ynghylch cofrestru athrawon peripatetig ac athrawon cerdd sy'n ymweld i ddarparu gwasanaethau mewn ysgolion annibynnol fel athrawon ysgol annibynnol. Y teimlad oedd na ddylai'r athrawon hyn fod yn ddarostyngedig i'r un ffi ag athrawon ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol ac yn hytrach dylid cael categori ar wahân am ffi is.
21. Gwnaeth un ymatebwr sylw am bwysigrwydd sicrhau bod yr holl weithwyr perthnasol mewn ysgolion annibynnol wedi'u cofrestru. Gellid ehangu'r rhestr o rolau i wneud hyn yn gliriach.
22. Nid yw'n bosibl darparu canllawiau absoliwt ar gyfer pob amgylchiad ac mae'r gofyniad i gofrestru yn dibynnu i raddau ar y rôl sy'n cael ei chyflawni a'r trefniadau sydd ar waith gan unigolion gyda'u cyflogwr. Mae'r CGA yn rhoi cyngor defnyddiol i bob cyflogwr i sicrhau bod y bobl gywir yn cael eu cofrestru. Mae'n ddyletswydd ar leoliadau addysg a chyflogwyr i sicrhau bod eu holl staff, waeth beth yw eu statws cyflogaeth na'u gofyniad cofrestru, yn addas i weithio gyda phobl ifanc a bod yr holl ganllawiau diogelu yn cael eu dilyn.

Penaethiaid mewn ysgolion a gynhelir

23. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig i wneud y gofyniad i gofrestru pob pennaeth mewn ysgolion a gynhelir yn fwy eglur.
24. Cafwyd 24 o ymatebion i Gwestiwn 2 – A ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn cadarnhau'r gofyniad i bob pennaeth mewn ysgolion a gynhelir gofrestru? O'r rhain, roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno ac 8% ddim yn cytuno â'r cynigion. Yn ogystal, roedd 21% yn ansicr.
25. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i benaethiaid gofrestru yng nghategori athro ysgol (neu athro ysgol annibynnol ar gyfer y sector ysgolion annibynnol), dywedodd rhai y dylai'r ddeddfwriaeth fynd ymhellach. Mae uwch arweinwyr eraill sy'n cyflawni swyddogaethau tebyg i benaethiaid neu'n cyflawni rolau penaethiaid dros dro a ddylai gael eu cynnwys gan y Gorchymyn newydd hefyd.
26. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid gwneud y ddeddfwriaeth yn gliriach er mwyn sicrhau y dylai pob uwch arweinydd mewn ysgolion gofrestru. Bydd y Gorchymyn terfynol felly'n gwneud y gofyniad hwn yn glir, wrth sicrhau na fydd yn ofynnol i aelodau eraill o staff - fel bwrsariaid, llywodraethwyr a rheolwyr busnes - gofrestru fel athrawon.

Gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid

27. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i estyn cofrestriad i bob gweithiwr ieuenctid cymwys a gweithwyr cymorth ieuenctid a dalwyd i ddarparu gwasanaethau datblygu ieuenctid ar gyfer cyflogwr perthnasol, gan gynnwys cofrestru dros dro ar gyfer y rhai sy'n gweithio tuag at gymhwyster.
28. Roedd 26 o ymatebion i Gwestiwn 3 - A ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y sector gwaith ieuenctid yn gywir? O'r rhain, roedd 69% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, roedd 19% yn anghytuno ac roedd 12% arall o'r ymatebwyr yn ansicr.
29. O'r rhai a gytunodd gyda'r diwygiadau arfaethedig, nododd nifer fod y Gorchymyn drafft yn nodi'n glir ar bwy y bydd gofyn cofrestru ac roeddent yn gefnogol yn fwy cyffredinol o'r dull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio. Ailadroddodd un ymatebwr bwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf ar bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gamau pellach sy'n cael eu cymryd ynghylch cofrestru'r gweithlu yn ystyried rôl y sectorau gwirfoddol a statudol er mwyn osgoi system 'dwy haen'.
30. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw waith ar ddiffinio gwaith ieuenctid a'r ffordd y'i defnyddir mewn newidiadau pellach i ofynion cofrestru yn cyd-fynd â therminoleg a ddefnyddir mewn cyd-destunau eraill. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i Lywodraeth Cymru weithio'n ofalus gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod dealltwriaeth ar y cyd ar draws y sector a'r tu hwnt o bwrrpas gwaith ieuenctid. Bydd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu bwydo i mewn i'r gwaith hwnnw.

31. Roedd 24 o ymatebion i Gwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau a wnaed i Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuencid, Gweithwyr Cymorth Ieuencid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 yn cyflwyno rhestr gywir o gymwysterau gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ledled y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)? O'r rhain, cytunodd 54% o'r ymatebwyr, a doedd 17% ddim yn cytuno â'r cynigion. Yn ogystal, roedd 29% yn ansicr.
32. Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylw ar fanylion y rhestr o gymwysterau, oedd i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, mae nifer o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r cynnig i ddileu'r cymwysterau Lefel 2 o'r Gorchymyn gan nad ydynt yn rhoi statws gweithwyr cymorth ieuencid, a hefyd fe groesawir cynnwys darpariaeth 'arbed' yn nodi ei bod yn parhau i fod yn ofynnol i'r cofrestryddion hynny sydd ar hyn o bryd yn dal cymwysterau o'r fath i gofrestru am gyfnod.
33. Mae rhai ymatebwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod digon o gymorth ar gael i ddatblygu'r gweithlu, yn arbennig y rhai sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer o'r ymatebwyr wedi nodi eu rhwystredigaeth y bydd y rhestr o gymwysterau yn aros o fewn y Gorchymyn yn hytrach na'u cadw mewn manau eraill fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Fel y dywedwyd yn y ddogfen ymgynghori, ar ôl ystyried y cynnig hwn yn fanwl, daethpwyd i'r casgliad nad yw paragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid ble y caiff y rhestr ei chadw.

Sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

34. Roedd 22 o ymatebion i Gwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r categorïau cofrestru newydd arfaethedig ar gyfer Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yn gywir? O'r rhain, cytunodd 41% o'r ymatebwyr ac nid oedd 14% yn cytuno â'r cynigion. Yn ogystal, roedd 45% yn ansicr.
35. Dywedodd un ymatebwr y dylai'r Gorchymyn ei gwneud yn glir mai dim ond i'r uwch arweinwyr hynny sy'n arweinwyr addysg a/neu hyfforddiant y dylai fod yn ofynnol cofrestru gyda CGA er mwyn osgoi cynnwys uwch arweinwyr nad oes ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddarparu addysgu neu hyfforddiant o fewn y sefydliad.
36. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r ddeddfwriaeth gael ei gwneud yn eglur. Bydd y Gorchymyn terfynol felly'n gwneud y gofyniad hwn yn eglur, wrth sicrhau na fydd yn ofynnol i aelodau eraill o staff sydd ddim yn ymgymryd â rôl berthnasol gofrestru fel athrawon.
37. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r diffiniad o weithiwr cymorth dysgu gynnwys y rhai a allent fod yn gweithio yn y lleoliadau preswyl ac addysgol o fewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol.

38. Rhaid i unigolion gofrestru gyda'r rheoleiddiwr perthnasol ar sail eu rolau a'u cyfrifoldeb. Fel yn achos staff mewn lleoliadau ysgolion annibynnol, cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i rai unigolion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) a'r CGA, gan ddibynnu ar natur eu rôl. Mae GCC a'r CGA yn rhoi cyngor defnyddiol i gyflogwyr ar y mater hwn.

Strwythur ffioedd

39. Roedd cefnogaeth gan y mwyafrif o'r ymatebwyr ar gyfer y strwythur ffioedd arfaethedig.
40. Roedd 24 o ymatebion i Gwestiwn 6 – A ydych chi'n cytuno â'r strwythur ffioedd a chymhorthdal arfaethedig ar gyfer y categorïau cofrestru newydd arfaethedig? O'r rhain, roedd 63% o'r ymatebwyr yn cytuno a doedd 25% ddim yn cytuno â'r cynigion. Yn ogystal, roedd 13% yn ansicr.
41. Fel yn achos yr ymgynghoriad cyntaf, wrth gydnabod pwysigrwydd cofrestru, gofynnodd rhai ymatebwyr beth fyddan nhw'n ei gael am eu ffi gofrestru. Mae manylion manteision cofrestru ar gyfer pob sector yn cael eu darparu ar wefan y CGA.
42. Roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â sut mae'r cymorthdaliadau'n gweithio a sut mae unigolion yn talu am eu cofrestriad. Mae manylion ynghylch sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol i'w gweld ar wefan y CGA.
43. Roedd safbwyntiau gwahanol yn cael eu cyflwyno o ran a ddylai staff mewn ysgolion annibynnol fod yn destun yr un cymorthdaliadau â'r rhai yn y sector a gynhelir. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r cydraddoldeb, tra bod eraill yn teimlo mai dim ond y sector a gynhelir ddylai gael cymorthdaliadau.
44. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y nifer ychwanegol o bobl a fydd nawr yn gorfod cofrestru, ac am nifer yr achosion ychwanegol yn ymwneud â ffitrwydd i ymarfer y gellid ei ddisgwyl. O ystyried yr ansicrwydd am nifer yr unigolion yn y sector gwaith ieuenctid, rhoddwyd amcangyfrif o 3,000 yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r amcangyfrif o nifer y cofrestriadau ychwanegol yn nes at 1,900. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yr amcangyfrif o 18 o achosion ychwanegol yn ymwneud â ffitrwydd i ymarfer a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol yn rhy uchel. Ar sail ei brofiad helaeth o achosion, mae'r CGA yn amcangyfrif y byddai'r cynnydd yn nifer y cofrestriadau yn arwain at 2-3 o atgyfeiriadau ychwanegol ynglŷn â ffitrwydd i ymarfer bob blwyddyn.

Dadansoddiad o effaith y newidiadau

45. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn fodlon gyda'n dadansoddiad o effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig.
46. Roedd 23 o ymatebion i Gwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o effeithiau posibl y categorïau cofrestru newydd arfaethedig? O'r rhain, roedd 57% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, roedd 30% yn anghytuno ac roedd 13% yn ansicr.

47. Roedd ymatebwyr yn cytuno, er nad yw gosod ffi ar gyfer cofrestru unigolion byth yn debygol o gael ei groesawu, roedd y manteision i ddysgwyr a hyder y cyhoedd yn y system yn drech na'r costau ariannol.

Materion cysylltiedig

48. Gofynnodd Cwestiwn 8 a ddylid ystyried unrhyw newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chofrestru gyda CGA. Yn ogystal, roedd Cwestiwn 11 yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig pellach, nad oedd y cwestiynau wedi sôn amdanynt yn benodol. Gwnaeth 16 o ymatebwyr sylwadau.
49. Roedd un ymatebwr yn poeni am nad oedd yn ofynnol i diwtoriaid cartrefi preifat gofrestru gyda'r CGA. Er na fyddai tiwtoriaid sy'n cael eu cyflogi'n breifat gan unigolion yn cofrestru oni bai eu bod yn cael eu cynnwys yn arferol yn un o'r categorïau cofrestru (er enghraifft, athro cofrestredig sydd hefyd yn gweithio fel tiwtor cartref), rhaid i diwtoriaid cartref sy'n cael eu cyflogi gan awdurdod lleol (er enghraifft, i addysgu plant sy'n methu mynd i'r ysgol yn rheolaidd) gofrestru yn y categori athrawon ysgol. Mae llawer o gwmnïau preifat tiwtora yn y cartref yn ei gwneud yn ofynnol i'w tiwtoriaid gofrestru gan fod hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i rieni ynghylch addasrwydd person sy'n tiwtora eu plant.
50. Gofynnwyd am eglurhad o beth yw bwriad Llywodraeth Cymru y tu cefn i ganiatáu i athrawon weithio fel staff cymorth dysgu heb gofrestru yn y categori hwnnw. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu caniatáu i unrhyw unigolyn weithio mewn unrhyw rôl sy'n gofyn am gofrestru heb gofrestru ym mhob categori perthnasol. Bydd y Gorchymyn terfynol yn cael ei ddiwygio i wneud hyn yn eglur.
51. Gwnaed cais i athrawon sydd heb gymhwyso sy'n gweithio yn y sector ysgolion a gynhelir gael eu cofrestru fel athrawon. Ar hyn o bryd mae'r unigolion hyn wedi'u cofrestru fel gweithwyr cymorth dysgu gan ei bod yn ofynnol iddynt gael statws athrawon cymwysedig (SAC) i weithio fel athro yn y sector ysgolion a gynhelir. Gwnaed dadl dros eu cofrestru ar wahân, i fynd i'r afael â'r 'anghysondeb' hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater.
52. Gofynnodd un ymatebwr i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pa gyrff sy'n destun craffu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael ei hadolygu i gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg. Goruchwylir cylch gwaith yr Ombwdsmon gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. O'r herwydd, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud sylw pellach ar y mater yn y ddogfen hon.
53. Gofynnodd un ymatebwr am eglurhad p'un a fyddai'n ofynnol i staff cyflenwi asiantaethau gofrestru gyda'r CGA. Nid yw'r gofyniad hwn wedi newid a rhaid i holl staff cyflenwi asiantaethau gofrestru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y CGA.

Y Gymraeg

54. Gofynnodd yr ymgynghoriad y cwestiynau canlynol i gael barn ar yr effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg:
- Cwestiwn 9 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddent yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?
 - Cwestiwn 10 - Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
55. Cafwyd 17 o ymatebion i Gwestiwn 9 a 13 ymateb i Gwestiwn 10. Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Roedd un ymatebydd yn poeni am nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sector gwaith ieuenctid a'r angen i sicrhau bod darpariaeth ar gael i gefnogi hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

56. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, nid yw'r holl faterion a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Felly, y bwriad yw adolygu'r Gorchymyn drafft a chyhoeddi'r Gorchymyn terfynol ar gyfer gorfodaeth yn ddiweddarach yn y gwanwyn.
57. Mae CGA wedi codi rhai materion gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â phaneli ffitrwydd i ymarfer. Gall y grwpiau cofrestru ychwanegol, a'r nifer cymharol fach o unigolion a fydd yn ffurfio'r grwpiau hynny, wneud cyfansoddiad paneli'n broblematig. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CGA ar opsiynau i ddatrys y mater hwn gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad pellach ar unrhyw newidiadau a gynigir.
58. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymchwilio i unrhyw faterion ychwanegol, cysylltiedig a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, ac yn penderfynu a oes angen newidiadau pellach yng ngham 2 y gwaith hwn.

Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr

Derbyniwyd cyfanswm o 29 ymateb i'r ymgynghoriad hwn. O'r rhain, gofynnodd 11 o'r ymatebwyr am gael aros yn ddiennw ac atebodd tri arall yn ddiennw. Yn ogystal â'r dinesydd preifat a ymatebodd, rydym wedi rhestru'r bobl a'r sefydliadau a roddodd ganiatâd i gyhoeddi eu manylion.

Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

Alwyn Ward, Cyngor Sir Ceredigion

Sarah Lloyd-Davies, Estyn

Steve Drowley, Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru

Elizabeth Brimble, Cyngor y Gweithlu Addysg

Jane Morris, Gwasanaethau Llywodraethwyr Cymru Services

Andy Warnock, Musicians' Union

Neil Butler, NASUWT The Teacher's Union Cymru

Bethan Williams, Prince's Trust Cymru

Tim Opie, Prif Grŵp Swyddogion Ieuencid (PYOG) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Donna Crossman, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mason Morgan, Cynllun Gwirfoddolwyr Ifanc Heddlu De Cymru

Iona A. Davies, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Paul Glaze, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol